



## **Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Ailgydbwyso gofal a chymorth – ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well**

### **Ymateb gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn seiliedig ar gyfraniadau gan sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n gweithredu yng Nghymru**

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)** yw'r sefydliad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector<sup>1</sup> yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw dyfodol lle mae'r sector gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb. Ein cenhadaeth yw bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol drwy gysylltu, galluogi a dylanwadu.

Mae CGGC yn gweithio gyda rhwydweithiau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, sy'n cynrychioli 26 o gategorïau diddordeb yn y trydydd sector, yr 19 o gynghorau gwirfoddol sirol drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru ac asiantaethau a rhwydweithiau datblygu eraill (e.e. Grŵp Cynllunio Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol), i ddarparu strwythur i gefnogi'r sector yng Nghymru.

Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru i gyfri am dros wyth y cant o'r gweithlu cyflogedig. Mae hyn gyfystyr â 100,000 o weithwyr cyflogedig, gyda 48,500 ohonyn nhw yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n gwneud cyfraniad sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn agos i gartrefi pobl.

## **1. CYFLWYNIAD**

Mae CGGC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, ac mae'n cyflwyno adborth ac yn cynnig syniadau ar ran ystod eang o sefydliadau o'r sector gwirfoddol a chymunedol. Cynhaliwyd dau ddiwyddiad ymgynghori ar-lein gan CGGC ar 2 a 12 Mawrth 2021. Cafodd y trafodaethau o'r ddwy sesiwn ymgynghori eu crynhoi gan ymgynghorydd llawrydd, Carys Mair Thomas, a dyma sy'n sail i'r ymateb cynhwysfawr hwn gan CGGC ar ran y sector ehangach ar gyfer y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn y Papur

---

<sup>1</sup> Defnyddir 'y sector' i gyfeirio at y sector gwirfoddol drwy gydol y papur, oni nodir fel arall.

Gwyn. Cyn y sesiynau ymgynghori, gofynnodd CGGC i'r cyfranogwyr ymateb i dri chwestiwn cyn y digwyddiad:

1. *Beth yw eich argraffiadau cyffredinol o'r hyn sydd wedi'i gynnig yn y Papur Gwyn? Beth allai ei olygu i'ch sefydliad? Beth fydd yn ei olygu i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn y gymuned?*
2. *Beth yw'r pethau positif sydd wedi'u hamlinellu?*
3. *Beth yw'r rhwystrau a'r heriau ar gyfer yr hyn sydd wedi'i gynnig yn y Papur yn eich barn chi?*

Mae'r sylwadau hyn wedi'u cynnwys yn Adran 2, sy'n nodi'r adborth cyffredinol. Mae Adran 3 yn nodi'r ymatebion i'r cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad.

O ystyried cymhlethdod a nifer y cwestiynau ymgynghori a luniwyd, crëwyd polau piniwn ar-lein er mwyn cyflymu'r broses, ac mae'r canlyniadau wedi'u rhestru fel Atodiad (1) a'r canlyniadau unigol wedi'u cynnwys hefyd o dan bob cwestiwn lle cynhaliwyd pŵl piniwn. Mae Atodiad 2 yn nodi enwau'r prif gyfranwyr a ymatebodd.

## **2. ADBORTH CYFFREDINOL**

### **2.1 Canolbwyntio ar ddinasyddion**

Cyn gwneud unrhyw newid arfaethedig mae'n bwysig cofio am ddinasyddion; y bobl sy'n debygol o fanteisio ar wasanaethau iechyd a gofal, waeth pwy sy'n eu darparu. Mae hyn yn golygu fod angen mecanweithiau cadarn ar waith er mwyn iddyn nhw gael dweud eu dweud yn glir am y ffordd maen nhw'n cael eu cefnogi, a'u bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio gwasanaethau iechyd a gofal o'r dechrau.

Mae Papurau Gwyn yn tueddu i ganolbwyntio ar y macro ac, yn y cyd-desun hwn, yn edrych ar sefydlu swyddfa genedlaethol a fframwaith cenedlaethol, ond hefyd ar lefel meso, o safbwynt strwythurol, o ran swyddogaethau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol. Nid yw'n canolbwyntio ddigon ar y gymuned. Mae llawer iawn o waith atal ac ymyrraeth gynnar yn digwydd sydd angen ei gynnal er mwyn tynnu pwysau oddi ar wasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd.

Roedd pobl o'r farn nad oedd cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddinasyddion a'u bod yn seiliedig ar brosesau, gan anwybyddu'r problemau a welwyd ar lefel feicro, ar lawr gwlad ac yn y gymuned. Mae ymgynghoriad sy'n defnyddio cwestiynau caeedig yn golygu nad yw wedi defnyddio egwyddorion cydgynhyrchu, a codwyd cwestiynau ynghylch y gwaith ymgysylltu a wnaed gan y Llywodraeth i lunio'r cynigion ar gyfer y Papur Gwyn. O ganlyniad, teimlir y bydd y broses ymgynghori yn ei chael hi'n anodd canfod y canlynol:

- lle mae bregusrwydd eisoes yn bodoli yn y system ac nid dim ond mewn gwasanaethau penodol,
- beth sydd angen digwydd er mwyn adeiladu sylfeini cryfach,
- sut i osgoi holltau rhag ymddangos yn y strwythur newydd, a
- sut i helpu pobl i adeiladu a gweld sylfeini mwy diogel ar gyfer system y byddan nhw'n gallu manteisio arni

***“Mae’n anodd, os nad yn amhosibl, gweld sut bydd modd i unigolion arfer eu lleisiau, eu dewisiadau a’u rheolaeth mewn sefyllfa o hierarchaeth fiwrocraidaidd mor hunllefus â hon.”***

***Ymatebwr i’r Ymgynghoriad***

## **2.2 Ymgorffori arferion cydgynhyrchu**

Mae ffordd bell i fynd eto er mwyn ymgorffori a buddsoddi mewn arferion cydgynhyrchu ar draws sectorau, o ran cydgynhyrchu comisiynau a chomisiynu ar gyfer cydgynhyrchu. Er ei fod yn cael ei grybwyll yn aml ar lawr gwlad fel rhywbeth hanfodol ar gyfer arferion da, dim ond yn fras mae cydgynhyrchu’n cael ei grybwyll yn y Papur Gwyn. Pan fydd cydgynhyrchu’n cael ei ddefnyddio’n ystyrlon, gallwn gael gwared ar systemau nad ydynt yn gweithio gan ein bod wedi gwrandao ar yr hyn sydd wir o bwys i bobl ac ymateb i hynny. Mae angen ymrwymiad ffurfiol i gydgyhyrchu y tu hwnt i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan adeiladu ar y gydbertynas o ymddiriedaeth sydd eisoes wedi dod i’r amlwg o ganlyniad i COVID-19. Mae gan Baneli Dinasyddion ran i’w chwarae er mwyn nodi meysydd i’w newid, ond mae angen cynnal adolygiad o Baneli o’r fath er mwyn deall eu rolau a pha mor effeithiol ydyn nhw ar hyn o bryd.

## **2.3 Gwerth Cymdeithasol a Fforymau Gwerth Cymdeithasol**

Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, gallai Fforymau Gwerth Cymdeithasol ddod yn gorff sy’n gallu rhoi cynnig ar bethau newydd a gwneud argymhellion am y math o fodolau gwerth cymdeithasol allai gynnig gwasanaethau gofal a chymorth mewn cymunedau lleol. Mae’n hanfodol bod Fforymau Gwerth Cymdeithasol yn rhyngweithio â’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Swyddfa Genedlaethol, ond y cwestiwn yw a fyddai hyn yn creu gormod o haenau strwythurol, a fyddai’n arwain at ormod o fiwrocraetiaeth yn ei dro? Yn ogystal, mae angen rhagor o eglurder am y ffordd y caiff gwerth cymdeithasol ei fesur, ac mae angen cynnal gwaith pellach ar y fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau o safbwynt gofal cymdeithasol, ac mae angen hyfforddi sefydliadau ar sut i ddefnyddio’r fframwaith os bydd gofyn iddyn nhw wneud hynny.

## **2.4 Defnyddio deddfwriaeth a pholisïau cyfredol**

Mae’r Papur Gwyn yn creu gweledigaeth gadarnhaol ac mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu sail dda ar gyfer y dull newydd sydd wedi’i amlinellu, er enghraifft llais, rheolaeth, a’r angen i weithio ar y cyd gyda phobl wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae consensws wedi bod, ac yn parhau i fod, fod hon yn ddeddfwriaeth arloesol. Mae’r dyletswyddau yn Adran 16 yn allweddol i’w chyflwyno’n

llwyddiannus o ran datblygu modelau gofal a chymorth amgen. Byddai mapio prif rannau'r Papur yn erbyn egwyddorion craidd y Ddeddf er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn cael ei groesawu. Yn yr un modd, dylid cadw golwg ar gysail Cymru lachach – i ystyried llwybr radical tuag at ddarparu mecanweithiau newid ym maes gofal cymdeithasol – er mwyn sicrhau bod hwnnw'n mynd i'r cyfeiriad cywir er lles pawb, yn enwedig defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

## **2.5 Canolbwyntio ar ansawdd a gwerth cymdeithasol**

Mae awydd gwirioneddol i symud i ffwrdd o ddiwylliant sy'n seiliedig ar bris yn y farchnad gofal cymdeithasol ac i symud tuag at ffocws mwy dilys ar ansawdd a gwerth cymdeithasol drwy wella gwasanaethau. Mae'n bwysig newid pwyslais y Papur Gwyn tuag at wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n gymunedol, yn lleol ac sy'n seiliedig ar leoedd. Mae cytundeb ynghylch symud i ffwrdd o'r monopoli sy'n bodoli ar hyn o bryd i greu amgylchiadau lle mae sefydliadau yn adnabod eu cymunedau ac yn cael cyfle teg i ddarparu gwasanaethau pwrpasol a theilwredig drwy brosesau comisiynu gwerth cymdeithasol.

## **2.6 Mae angen datrys pryderon sy'n bodoli'n barod am Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

Mae pryderon y sector gwirfoddol am rôl a swyddogaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn hysbys iawn. Mae pryder na fydd eu gwneud nhw'n endidau cyfreithiol yn arwain at unrhyw newid amlwg o ran tegwch 'wrth y bwrdd', nac yn y ffordd y bydd gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu comisiynu a p'un a oes modd cyflawni hyn yn rhanbarthol. Er bod cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y manylion, mae angen rhagor o wybodaeth am rôl y swyddfa genedlaethol a swyddogaethau newydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (fel cyflogi staff, er enghraifft) wrth greu partneriaethau traws-sector, tra eu bod yn gwrandao ar leisiau dinasyddion ar yr un pryd er mwyn newid arferion a darparu gwasanaethau, er gwell.

## **2.7 Dylid dechrau gyda chynlluniau gofal a chymorth**

Dylai cynlluniau gofal a chymorth fod yn sail i fframwaith cenedlaethol ac nid i'r gwrthwyneb, yn ogystal â'r gallu i gydgrynhoi'r cynlluniau hynny er mwyn nodi'r lefelau a'r mathau o wasanaethau gofal a chymorth, yn enwedig o safbwynt lleol i ddarparu gwasanaeth holistaidd. Mae hyn yn rhybudd am berygl posibl i'r sector gwirfoddol gan fod perygl gwirioneddol y bydd y fframwaith wedi'i seilio'n llai ar angen ac yn fwy ar pwy fydd yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu, a fydd yn arwain at y ffaith na fyddant yn cael eu cydgynhyrchu gan ddinasyddion (defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr).

O safbwynt unigol yn ogystal ag o safbwynt atal ac ymyrraeth, dylai **Rhagnodi Cymdeithasol** gael ei gynnig yn gynnar er mwyn osgoi argyfyngau. Mae modelau amrywiol o arferion yn bodoli, ond mae pob un yn canolbwyntio ar gysylltu pobl ag ymyraethau anfeddygol sydd wedi'u lleoli yn y gymuned. Fodd bynnag, dim ond ar y sail bod sefydliadau sector

gwirfoddol yn bodoli i gyfeirio pobl atynt y bydd Rhagnodi Cymdeithasol yn gweithio. Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i sicrhau bod Rhagnodi Cymdeithasol yn llwyddo i fod yn ddewis amgen cynaliadwy neu'n fodel o ddewis o'r cychwyn cyntaf, er mwyn osgoi bod pobl yn mynd drwy ddrws blaen Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Sylfaenol.

## 2.8 Croesawu cyfundrefn ofalu fwy syml

Yn gyffredinol, rydyn ni'n croesawu symleiddio gan y byddai hynny'n ein caniatáu ni i gribo drwy gymhlethdodau'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol gyfredol a dychwelyd at hanfodion darpariaeth gofal a gwneud defnydd gwell o adnoddau ar y cyd. Fodd bynnag, dim ond drwy sicrhau bod gwasanaethau cymorth a gofal allweddol y sector cymunedol a gwirfoddol yn cael eu hariannu'n gynaliadwy fel rhan o'r casgliad mae modd i hynny weithio.

## 2.9 Sicrhau canlyniadau ystyrion

Mae'n bwysig bod y system newydd yn gallu mesur canlyniadau ystyrion sy'n feintiol ac yn ansoddol. Bydd gofyn casglu a dadansoddi data yn barhaus felly, a bydd hyn yn benodol o hanfodol yn y cylch pum mlynedd er mwyn sicrhau gweithredu'n brydlon mewn ymateb i anghenion cymunedau sy'n newid. Mae cwestiwn 8 yn fan cychwyn da ar gyfer y sgwrs hon ar ôl y cyfnod ymgynghori gan y bydd y data yn chwarae rhan hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion a gwasanaethau'n cyfateb yn gymesur.

## 2.10 Pwysigrwydd y sector gwirfoddol

Mae'r sector gwirfoddol am chwarae rhan weithgar yn y camau nesaf yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, ac mae'n agored i gynnal trafodaethau am newidiadau ar y cyd er budd newid.

Codwyd rhai pryderon, oherwydd cymhlethdodau cynnwys y Papur Gwyn a'r cwestiynau amlochrog sydd wedi'u cynnwys, sef bod angen rhagor o drafodaethau, a rhagor o wybodaeth ac amser i holi cwestiynau pellach a deall beth mae'r cynigion yn eu golygu i ddinasyddion a rhanddeiliaid. Dyma sut gall y sector gwirfoddol helpu i lywio canlyniadau a dulliau, ond nid yw'n 'hawdd' i'r cyhoedd roi mewnbwn i'r ymgynghoriad hwn. Un awgrym oedd y dylai'r ymgynghoriad fod wedi cael ei 'brawfddarllen' gan banel o ddinasyddion er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch.

## 3. CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau?

Canfu pŵl piniwn ein hymgyngoriad ar gyfer y cwestiwn hwn fod 91% yn cytuno bod cymhlethdodau yn y sector gofal cymdeithasol yn amharu ar wella gwasanaethau, a dim ond 7% oedd yn anghytuno. Er enghraifft, roedd un ymatebwr yn dadlau bod '*comisiynu sy'n canolbwyntio ar bobl yn well ar lefel leol*' ac yn teimlo y byddai cynigion ar gyfer cyfarwyddyd rhanbarthol cryfach a fframwaith cenedlaethol yn effeithio'n negyddol ar

hynny. Yn gyffredinol, fodd bynnag, y farn oedd bod cymhlethdodau yn bodoli yn y system fel ag y mae ar hyn o bryd.

Yn gyffredinol, y teimlad yw bod gormod o adrannau ar hyn o bryd, a dim digon o gydweithio. Mae angen llawer llai o fiwrocratiaeth, ac mae cytundeb y dylid symleiddio'r sector gofal cymdeithasol yn hytrach na'i wneud yn fwy cymhleth.

Mae'r meini prawf cymhwysedd cyfredol ar gyfer gofal yn agored i gael eu dehongli, sy'n golygu mai loteri cod post yw hi i gael mynediad at wasanaethau yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn wir o ran ansawdd y gwasanaeth, a chysondeb o ran pris.

***“Os ydy pobl sy'n gweithio yn y sector yn ei chael hi'n anodd ei deall (y system), yna fydd dim gobaith o gwbl gan y cyhoedd i lywio'u ffordd drwy'r haenau gwahanol.”***

**Ymatebwr i'r Ymgynghoriad**

Er enghraifft, o ran pris a Thaliadau Uniongyrchol, mae'n ymddangos fod awdurdodau lleol yn mabwysiadu cyfraddau mympwyol dros gyfraddau fesul awr y Taliadau Uniongyrchol. Hynny yw, bod gwasanaethau ddim ar gael neu eu bod yn ddrytach na'r gyfradd a ddarparwyd. Mae hynny'n golygu fod naill ai dim gwasanaeth ar gael i bobl sydd mewn angen neu eu bod yn cael eu gorfodi i brynu gwasanaethau nad ydynt yn diwallu eu hanghenion asesu, sy'n arwain at ddiffyg llais, dewis a rheolaeth. Codwyd canfyddiadau'r cyhoedd fel problem hefyd, ac awgrymodd un ymatebwr fod y sector gwirfoddol yn cael ei weld fel sector llai proffesiynol. Gall hyn ychwanegu haen arall o gymhlethdod. Fodd bynnag, un ffactor lliniarol yw'r ffaith bod argyfwng COVID-19 wedi codi proffil y sector gwirfoddol ac wedi creu gwell dealltwriaeth o rôl y sector o ran cefnogi cymunedau lleol mewn angen.

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael?

Canfu pŵl piniwn ein hymgyngoriad ar gyfer y cwestiwn hwn fod 74% yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael. Dylid nodi bod 21% o'r rhai a ymatebodd i'r pŵl piniwn wedi'i chael hi'n anodd ateb y cwestiwn.

Mae rhai enghreifftiau cyfyngedig o drefniadau comisiynu lleol da o gydgyhyrchu ar waith yng Nghymru, ond y teimlad oedd bod y ffocws presennol ar gost a sicrhau'r gwasanaeth rhataf sydd ar gael. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl gael eu ffitio mewn i focsys penodol iawn er mwyn cael y cymorth angenrheidiol, sy'n creu 'system ostyngol'. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod pobl sydd ag Awtistiaeth neu gyflyrau, anabledau neu gyflyrau iechyd meddwl eraill yn cael triniaeth annigonol.

Mae pobl am weld eu hunain yn rhan o'r gwaith o gydgyhyrchu gwasanaethau, ac wedi'u cynnwys yn y ffordd mae'r system yn mesur 'gwerth' ac yn symud i ffwrdd o arferion

problematic. Er enghraifft, y drefn arferol ar hyn o bryd ar gyfer oedolion sydd â llawer o anghenion ac anghenion cymhleth yw y byddan nhw'n mynd i gartref gofal yn hytrach na chael gofal a chymorth yn eu cartrefi. Ond onid yw hyn yn gyfle i gael llai o leoliadau sefydliadol a bod gofal a chymorth lefel uwch yn cael ei ddarparu yng nghartrefi'r defnyddwyr gwasanaeth?

Roedd ymatebwyr yn teimlo, gyda chymorth priodol yn ei le, y gallai unigolion a'u teuluoedd reoli eu cyllidebau eu hunain a phenderfynu drostyn nhw eu hunain sut i gyflawni'r canlyniadau y cytunir arnyn nhw orau drwy Daliadau Uniongyrchol neu gronfa wasanaeth unigol. Ar hyn o bryd, y teimlad yw bod darparwyr gwasanaethau yn dweud pa wasanaethau sydd ar gael, sy'n golygu bod pobl yn y canol yn mynd ar goll ac mai dim ond mewn argyfyngau eithafol mae pobl yn chwilio am gymorth.

***“A fyddwn ni, ar ryw adeg, yn cyrraedd pwynt o ofal hunan-gyfeiriedig, lle gall pobl brynu cymorth ar gyfer eu hunain neu gasgliad o ddefnyddwyr gwasanaeth?”***

**Ymatebwr i'r Ymgynghoriad**

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno bod gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cael ei gyfyngu gan eu dyluniad a'u strwythur?

Mae'r heriau sy'n wynebu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd yn amlwg. Mae'r rhain wedi eu nodi yn flaenorol gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac aelodau eraill o CGGC, ac maent yn tanseilio 'gweledigaeth holistaidd' Llywodraeth Cymru:

- Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i strwythuro'n wahanol o ran mewnbynnu i'r bwrdd cyffredinol.
- Mae cynrychiolwyr ar ran dinasyddion a gofalwyr yn ei chael hi'n anodd iawn cael unrhyw effaith ar 'benderfyniadau', ac mae eu lleisiau'n cael eu 'gwanhau' gan nad oes digon ohonynt ar lefel y Bwrdd, ac nid yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn deall nac yn gwerthfawrogi cydgynhyrchu.
- Mae angen lleisiau cryfach ar ofalwyr a dinasyddion mewn grwpiau bwydo, gan mai dyma lle mae cyfran helaeth o'r gwaith o 'wneud penderfyniadau, rhannu syniadau a chydgyhyrchu' yn digwydd.
- Mae angen i gynrychiolwyr dinasyddion (llawer ohonynt yn wirfoddolwyr) gael statws â thâl cyfartal â phobl eraill ar y Bwrdd, sy'n cael eu talu i lywio'r system, er mwyn cydnabod eu harbenigedd a'u cyfraniad tuag at ddarparu gwasanaethau, ac er mwyn atal y teimlad eu bod nhw 'ym mhen draw'r ystafell ac yn gorfod ymladd i gael

***“Mae niferoedd y partneriaid allanol ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn yr ystafelloedd injan, lle mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau'n cael eu gwneud, yn fychan iawn.”***

**Ymatebwr i'r Ymgynghoriad**



*lle wrth y bwrdd'*. Mae angen rhoi ystyriaeth lawn i hyn os yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod yn endidau cyfreithiol.

- Mae tryloywder yn broblem i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn aml maent yn *'feichus ac yn aneffeithiol'*, gydag agendâu *'sydd wedi'u pennu a'u cymeradwyo'n barod'*. Nid yw cynrychiolwyr yn gwbl ymwybodol o'r hyn maen nhw wedi cytuno arno, a hynny'n aml am eu bod *'yn cael tomen o bapurau ar fyr rybudd'*. Mae'n rhaid i hyn newid.
- Pan fydd penderfyniadau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu herio, *'dydyn nhw ddim yn aml yn ymateb mewn modd aeddfed – mae pobl yn gallu bod yn eithaf croen denau'*.
- Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn gynrychiadol, yn gwbl atebol, i dderbyn craffu ac i'r holl gyfarfodydd fod yn agored i'r cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau archwilio, herio a chraffu priodol (Ar hyn o bryd, mae ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd deall trefniadau adrodd ac atebolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol).

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn credu mai dim ond rhan o'r broblem yw cynllun a strwythur y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae llawer yn cyfeirio at y ffaith bod *'diwylliant a dealltwriaeth y Byrddau'* yn *'fwy o rwystr'* er mwyn i'r Byrddau gyflawni eu cyfrifoldebau. Un o'r prif bryderon yw diffyg cydweithio ac arferion cydgynhyrchu aneffeithiol, wrth i ymatebwr ddisgrifio un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel un *'anghysbell iawn'*.

Codwyd pryderon hefyd am y ffaith bod awdurdodau lleol a byrddau ieuchyd yn methu â mabwysiadu egwyddorion cydgynllunio a chydgyhyrchu yn llawn, a, heb newid strategol yn hyn o beth, ychydig iawn o wahaniaeth fydd newid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei chael ar y canlyniadau. Ar gyfer un o'r ymatebwyr, roedd hi'n ymddangos fel bod cyllideb y Gronfa Gofal Integredig yn cael ei rheoli gan y Bwrdd Iechyd.

Awgrymodd un ymatebwr y dylai fod gofyniad ar y rhai sy'n gweithio ar lefel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd i wneud mwy i feithrin cysylltiadau ac i gael mwy o hyfforddiant ar y cyd, a bod hyn wedi gweithio'n dda lle gwnaethpwyd hynny. Bydd ewyllys gwleidyddol yr un mor berthnasol i hynny â'r cynllun a'r strwythur os ydyn ni am ail-ffurfio'r gwasanaethau er gwell ar gyfer y dyfodol.

Mae pryderon o ran y dyfodol yn berthnasol i'r cynigion sy'n cyfyngu ar gyfansoddiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n arwain at aelodaeth gyfyngedig a llai o ymateb i'r hyn mae pobl ei eisiau a'i angen gan wasanaethau gofal cymdeithasol.

***"Peidiwch â gadael i ni ddod yn wlad fach sydd â llawer o isadeiledd diangen ar lefel ranbarthol – pam ddim defnyddio lefelau cenedlaethol, lleol a chymunedol?"***  
**Ymatebwr i'r Ymgynghoriad**



Cyfeiriodd un ymatebwr at waith ymchwil eang sydd wedi canfod bod gwaith aml-asiantaeth yn rhwystr sylweddol o ran pa mor effeithiol yw gwasanaethau gofal cymdeithasol. Roedd eraill yn nodi sut mae cyllidebau awdurdodau lleol ac iechyd eisoes yn cael eu gwasgu, ac y byddai rhagor o haenau yn arwain at wasgu pellach ar gyllideb yn ddi-os, ac mae angen osgoi hynny.

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau?

Cwestiwn 4a: Pa rannau o'r cylch comisiynu ddylai gael eu hadlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol?

Roedd ein hymatebwyr yn gweld hwn yn 'gwestiwn enfawr' gyda llawer o gydrannau, ac yn holi a oedd hi'n briodol ei gynnwys o ystyried ei gymhlethdod, ac a oedd hwn yn rhywbeth y gallai defnyddwyr gwasanaethau a gofawyr di-dâl gymryd rhan ynddo a rhoi eu barn.

Wrth ateb y cwestiynau, roedden nhw'n teimlo bod angen ei ddadansoddi ymhellach, ac roedden nhw'n cynnig eu cwestiynau symlach eu hunain:

- Ai comisiynu yw'r dull cywir?
- A yw'n bosibl pennu pris pan mai'r dinesydd sydd i *fod* i yrru'r broses?
- A yw'n bosibl mesur 'ansawdd' a 'gwerth' ac, os felly, yn ôl diffiniad pwy? Meini prawf pwy fydd yn cael eu defnyddio?

Roedd un ymatebwr yn awgrymu y dylai'r Llywodraeth ystyried [yr astudiaeth ymchwil 'Ystyrlon a Mesuradwy'](#) wrth ddatblygu ei ffordd o feddwl ar gyfer y cynigion penodol hyn. Mae gwaith Nick Andrews (Prifysgol Abertawe) yn ddefnyddiol iawn o ran cydgynhyrchu, yn enwedig ['Small is Beautiful'](#) a phwysigrwydd adrodd straeon ym maes gofal cymdeithasol (y profiad byw). Byddai hefyd yn werth edrych ar y gwaith am Adeiladu Cymunedau Gwydn a arweiniwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, a'r corff o waith am y paradeim cymunedol a gyhoeddwyd gan [New Local](#), yn ogystal â gwaith am Ofal a Chymorth yn y Cartref (Gofal Cymdeithasol Cymru).

Yn y bôn, roedd yr ymatebwyr yn cyfeirio yn ôl at yr angen am i'r holl gynigion fod yn canolbwyntio ar y dinasyddion, ac ar greu system sy'n cynnig cysondeb o ran pris, yn ogystal ag o ran gwasanaethau; gan roi diwedd ar y loteri cod post presennol. O ganlyniad, roedd llawer yn teimlo bod angen ailfeddwl yn llwyr am gomisiynu, yn enwedig yng nghyd-destun siapio'r farchnad, ac adlewyrchu'r angen am gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofawyr di-dâl, gan mai dyma lle mae modd i gydgynhyrchu gael effaith wirioneddol ar brofiadau byw pobl. Mae angen gweithio gyda theuluoedd a gofawyr er mwyn cydgynhyrchu ystyr ar gyfer 'gwerth' ac 'ansawdd'.

Mae'n rhaid i bob cynnig gael diffiniad clir o gomisiynu cydgynhyrchu yn ganolog iddo, er enghraifft: *'y broses ar gyfer penderfynu sut i ddefnyddio cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael yn ein cymunedau i gefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a gofalwyr eraill, er mwyn gwella canlyniadau yn y ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol, deg a chynaliadwy'*. Mae enghraifft sydd eisoes wedi'i nodi yn y Papur Gwyn, o ran Comisiwn Comisiynu Plant Cymru, hefyd yn cynnig templed da o ran creu system effeithiol sy'n berthynol ac yn gydweithredol.

Er na ddylai *'prisiau gael eu pennu'n fympwyl'*, roedd teimlad cyffredinol y byddai defnyddio teclyn neu fethodoleg i bennu pris marchnad yn broblematic, a allai arwain at fod yn rhy gyffredinol neu'n rhy benodol, a fyddai'n achosi canlyniadau anfwriadol ac yn *'dod yn rhwystr'*. Roedd rhesymau'r ymatebwyr am hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r system gyfredol yn rhy anghysbell, ac mae lleisiau dinasyddion yn cael eu colli ac mae gormod o lefelau o fiwrocratiaeth yn bodoli.
- Does dim safonau ansawdd cenedlaethol yn bodoli, fel sydd yn y sector addysg, er enghraifft.
- Mae'n bosibl nad yw'r data gan y comisiynwyr i reoli marchnad neu i asesu *'ansawdd'* yn effeithiol.
- Mae pryderon na fyddai'n caniatáu *'dull er lles pawb'* lle byddai modd i gymunedau ddylanwadu ar sut mae cyllidebau'n cael eu datblygu a'u gwario.
- Mae mesuryddion yn gallu bod yn offerynnau di-fin a byddai anawsterau wrth ffurfio methodoleg a fyddai'n ddigon hyblyg i ystyried ffactorau pwysoli lleol / rhanbarthol priodol (yn enwedig gan fod enghreifftiau'n bodoli lle mae gwasanaethau gorleol wedi profi i fod yn anymarferol wrth eu cymharu â methodolegau prisio tebyg. Ond eto, mae gweithgarwch gorleol yn fwy tebygol o ddiwallu anghenion yn lleol a chyfrannu at yr agenda atal ac ymyrraeth gynnar.

Y teimlad oedd y byddai datblygu fframwaith cenedlaethol gwell sy'n galluogi yn ddefnyddiol ac yn cael ei groesawu, yn enwedig petai'n achosi newid mewn diwylliant ac ymddygiad ar bob lefel yn y system, gan y byddai hyn yn lleihau'r dryswch a'r dadleuon ynghylch materion cyfreithiol a phrosesau dros y pum mlynedd. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno ar ganlyniadau'r cynigion, ond nid y dull o'u cyrraedd nhw:

- Rhaid canolbwyntio ar yr angen am fframwaith sy'n annog cysylltiadau da nad ydynt yn gwbl trafodaethol. Er enghraifft, awgrymodd un ymatebwr y gallai sgiliau a phrofiadau staff arfaethedig y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn gyson â'r fframwaith, a gofynnodd ymatebwr arall am iddo ymgorffori egwyddorion gwaith teg fel sydd wedi'u nodi yn y Papur Gwyn.

Ystyriwyd bod pob rhan o'r cylch comisiynu mor bwysig â'i gilydd, ond byddai angen dannedd ar y fframwaith cenedlaethol er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu

cyflawni'n rheolaidd, drwy sail dystiolaeth a phrosesau atebolrwydd cadarn. Fodd bynnag, byddai modd gwella a chryfhau proses Dadansoddi, Cynllunio, Cyflawni ac Adolygu'r cylch comisiynu yn fawr drwy ymgorffori'r egwyddor o gydgyhyrchu ar bob cam.

Roedd pryderon eraill yn canolbwyntio ar sut byddai Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnwys mewn fframwaith cenedlaethol, ac roedd ymatebwyr yn awyddus i weld enghreifftiau o sut y byddai'r cynigion yn rhoi mwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth, a phryd byddai hynny'n dechrau digwydd.

**Cwestiwn 5:** A ydych yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol?

**Cwestiwn 5a** Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth y GIG o ofal nyrsio a ariennir, ond nid ydynt yn cynnwys gofal iechyd parhaus; a ydych yn cytuno â hyn?

**Cwestiwn 5b** A oes gwasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol?

Unwaith eto, roedd pobl yn teimlo bod y cwestiynau yma'n rhy gymhleth ar gyfer yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, roedd 60% o'r rhai a ymatebodd yn teimlo y dylai'r cynigion gynnwys gofal iechyd parhaus, er bod bron i 40% yn teimlo nad oedd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth i ateb yr holl elfennau yng nghwestiwn 5.

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau, yn absenoldeb integreiddio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y byddai'n berthnasol trafod yr angen am Wasanaeth Gofal Cenedlaethol tebyg i'r gwasanaeth iechyd, a fyddai'n codi ei statws. Gydag ychydig iawn o gyfeiriadaeth at iechyd yn y Papur Gwyn, y teimlad oedd y byddai gwahanu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn broblematig gan eu bod yn rhyngweithio'n unigryw i bob unigolyn. O safbwynt anghydraddoldebau iechyd menywod, petai anghenion iechyd yn cael eu diwallu ynghynt yna byddai llai o ddibyniaeth ar gael mynediad at gymorth gofal cymdeithasol.

Unwaith eto, nododd ymatebwyr yr angen am ragor o drafodaeth, ac i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr oherwydd byddai llawer yn dadlau y dylai comisiynu ym maes gofal cymdeithasol gydblethu â chomisiynu ym maes iechyd.

Er ei bod yn ymddangos bod awch am fframwaith cenedlaethol, lle byddai'r holl randdeiliaid yn cadw at yr un ffyrdd cysyniadol o ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei brynu, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen y data cywir arnyn nhw hefyd i fod yn gallu gwneud hynny'n gywir. Mae hyn yn golygu canolbwyntio llai ar gysondeb, a chanolbwyntio fwy ar ganlyniadau unigol a dull sy'n seiliedig ar yr unigolyn – gan ganolbwyntio ar gynlluniau cymorth a gofal. Credir y byddai'r dull hwn yn arwain at well mecanweithiau ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar.

**Cwestiwn 6:** A ydych yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol?

**Cwestiwn 6a** Os felly, pa rai?

Dyma'r cwestiwn a achosodd yr anhawster mwyaf i'r ymatebwyr, a methodd 73% ohonynt ag ateb y cwestiwn gan nad oedden nhw'n teimlo fod ganddyn nhw ddigon o wybodaeth. Dim ond 18% oedd yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol.

Byddai'r ymatebwyr wedi croesawu rhestr o grwpiau cenedlaethol cyfredol fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Er enghraifft, nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn ei rhestr o grwpiau cenedlaethol cyfredol, ond byddai'n ymddangos yn ddoeth gwneud hynny.

*“Maen nhw'n gofyn i ni fynegi barn ar y manylion, ond mewn gwirionedd mae angen i ni fod yn gallu gweld bod y manylion technegol sy'n cael eu llunio gan arbenigwyr yn diwallu'r anghenion, ac yna byddwn ni mewn sefyllfa i siarad amdany'n nhw. Fel arall, mae'n swnio fel bod rhywbeth yn cael ei wneud yn ofer.”*

**Ymatebwr i'r Ymgynghoriad**

Roedd ymatebwyr yn arbennig o gytûn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru bennu sail dystiolaeth glir am y ffordd y bydd ei chynigion yn ateb egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig o ran cynnig cyfle cyfartal a sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr reolaeth dros eu bywydau. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddadl wedi'i gwneud yn llawn ac mae angen edrych yn fanylach ar hyn.

**Roedd y pryderon eraill yn cynnwys:**

- Yr angen am roi enw priodol i 'swyddfa genedlaethol', er enghraifft 'Y Swyddfa Gofal Cymdeithasol Genedlaethol', er mwyn sicrhau bod ei phwrpas yn glir ac i roi safle priodol iddi, fel Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol.
- Creu system dwy haen, gyda rhai anghenion yn cael eu blaenoriaethu dros eraill.
- Sut byddai hynny'n cael ei fapio er mwyn sicrhau nad yw arferion comisiynu grwpiau cenedlaethol cyfredol yn gorgyffwrdd neu'n gwrthddweud ei gilydd, yn enwedig o ran eu heffaith ar y 'marchnadoedd gofal' amrywiol?
- Bod atebolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn symud o gymunedau lleol a defnyddwyr gwasanaethau i 'swyddfa genedlaethol', gan waethygu problemau sy'n bodoli'n barod am gynrychiolaeth a chraffu, gan gyfaddawdu ar gydgyhyrchu.
- Beth fyddai rôl Corff Llais y Dinesydd yn hyn?

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau?

**Cwestiwn 7a** A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried i gryfhau integreiddio rhanbarthol ymhellach drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol?

Unwaith eto, profodd hwn i fod yn gwestiwn anodd i'r ymatebwyr ei ateb, gyda 36% yn methu â'i ateb oherwydd diffyg gwybodaeth. Wedi dweud hynny, nid oedd 42% yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae modd esbonio llawer o hyn drwy'r anfodlonrwydd cyfredol tuag at y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gweler yr ateb i gwestiwn 3 ac adroddiadau blaenorol gan CGGC i Lywodraeth Cymru), gydag un ymatebwr a oedd o blaid creu Byrddau fel endidau cyfreithiol yn gweld hyn fel cyfle i "*drawsnewid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol*", gan dynnu sylw at yr angen i symud i ffwrdd o reoli ymddygiad sefydliadau wrth adolygu eu holl brosesau, systemau, arferion a diwylliant.

Yn gyffredinol, y teimlad oedd bod angen adolygu strwythurau a dull gweithio Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol cyn rhoi mwy o bwerau iddyn nhw, er bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod rhai o'r Byrddau yn well na'i gilydd. Ar lefel ymarferol, petai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod yn endidau cyfreithiol:

- Sut byddai hynny'n effeithio ar statws cyfreithiol cynrychiolwyr?
- A fyddai ganddynt bartneriaid statudol neu grŵp o gyfarwyddwyr?
- Sut byddai'r rhyngweithio rhwng cyrff corfforaethol lleol a rhanbarthol yn gweithio?
- A fyddai'n golygu na fydd y cynrychiolwyr yn llais ar gyfer eu sectorau neu grŵp poblogaeth bellach, ac yn dod yn Gyfarwyddwr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol? Os felly, byddai hyn yn cadw rhai pobl rhag eistedd ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae pwynt tebyg yn ymwneud â'r ffordd y byddai cynrychiolwyr allanol yn cael eu dewis ac a fyddai hynny'n cael ei wneud drwy benodiad cyhoeddus. Os byddai Byrddau'n cyflogi staff eu hunain, a fyddai hynny'n dod allan o'r cyllid sydd ei angen ar ddinasyddion? Credir y byddai hyn yn arwain at gynrychiolaeth gyfyngedig o wirfoddolwyr a gofalmwyr sy'n cael eu talu, fel y digwyddodd rai blynyddoedd yn ôl gydag ymgais gan Lywodraeth Cymru i sefydlu Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol, ond a fethodd yn y pen draw am nad oedd partneriaid yn awyddus i golli pwerau. Mae ofnau na fydd yn arwain at ddull mwy ymatebol i anghenion cymunedau.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y *gallai* fod yn ddefnyddiol petai'n arwain at fonitro a gwerthuso mwy atebol, heb gymhlethdodau na biwrocratiaeth ychwanegol. Mae angen i unrhyw gynig newydd osod yr angen am atebolrwydd a chraffu priodol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ei wraidd.

Nododd yr ymatebwyr yr angen am gyllid hirdymor, gan awgrymu nad yw cylchoedd ariannu blynyddol yn ddigon i hyrwyddo parhad na chynaliadwyedd gwasanaethau. Cydnabuwyd bod gwasanaethau cynaliadwy yn allweddol a bod angen ystyried pa wasanaethau craidd oedd eu hangen ar lefel leol ac i weithio'n gyflym i nodi a sefydlu pa rai o'r gwasanaethau

hynny sy'n hanfodol i gefnogi pobl, er enghraifft gwasanaethau cymorth i ofalwyr. Roedd rhai'n dadlau ei bod hi'n annheg asesu perfformiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol oherwydd yr amgylchedd cyllido byrdymor.

### **7a: Dulliau integredig o wirfoddoli**

Dylid annog cynllunio strategol a darparu adnoddau gwirfoddoli fel rhan hanfodol o iechyd a gofal cymdeithasol, a galluogi hynny ar lefel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi (t 6) enghraifft o Systemau Gofal Integredig yn Lloegr. Mae'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr yn darparu adnoddau Systemau Gofal Integredig yn rhanbarthol er mwyn datblygu [dulliau integredig o wirfoddoli](#) sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau a chanlyniadau lleol, drwy ddarparu cymorth ymarferol a chyllid i ymgeiswyr llwyddiannus. Mae angen llawer o gydweithio rhwng sectorau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn i ddull rhanbarthol ac integredig o wirfoddoli weithio. Mae'n annog nodi ar y cyd **ble a sut** mae gwirfoddolwyr yn gallu cael eu lleoli orau er mwyn darparu gofal a chymorth, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'n annog meddwl am y ffordd y gall gwirfoddolwyr symud rhwng sefydliadau yn fwy hawdd, er enghraifft drwy ddatblygu prosesau recriwtio a hyfforddi ar y cyd. Mae'n annog datblygu llwybrau er mwyn i wirfoddolwyr brofi amgylcheddau gwaith gwahanol ac astudio cymwysterau a dilyn gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal, os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Mae gwirfoddolwyr ynddynt eu hunain yn rym ar gyfer integreiddio, ac maent yn gallu canolbwyntio ar bobl fel pobl, heb yr angen am agenda gyfyngol gan wasanaeth proffesiynol. Mae ganddyn nhw rôl sy'n cyd-fynd â'r hyn mae gwasanaethau cyhoeddus statudol yn gallu ei wneud. Mae modd iddyn nhw fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, er enghraifft drwy gefnogi unigolion yn yr un ffordd ag y byddai ffrindiau a theuluoedd yn ei gwneud, pan nad yw teuluoedd a ffrindiau ar gael.

Mae gan wirfoddolwyr, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr di-dâl, staff a'r cyhoedd, syniad o'r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio, a lle mae'r cyfyngiadau. Da o beth fyddai i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rannu eu heriau ac i estyn gwahoddiad i bobl rannu ffyrdd o'u datrys.

Mae gwirfoddolwyr yn adnodd sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer gofal cymdeithasol. Yn ystod COVID-19 gwelwyd ymateb enfawr gan wirfoddolwyr a'r annigonolrwydd oedd yn bodoli mewn sianeli cyfredol i wneud defnydd effeithiol o'r ased cymunedol hwn.

Yn ystod y rhaglen frechu, mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd wedi bod yn amharod i hysbysebu am gymorth gwirfoddolwyr oherwydd maen nhw'n gwybod, petai nhw'n gwneud hynny, y byddai ganddynt fwy o gynigion nag y byddant yn gallu eu defnyddio. O ystyried yr angen i ailfeddwl am fodolau cynaliadwy o ddarparu gofal, ni ddylai'r adnodd hyblyg hwn gael ei anwybyddu. Mae gwirfoddolwyr yn helpu i greu gwytnwch cymunedol. Mae ein

profiad o COVID-19 wedi dangos – lle roedd gwirfoddoli wedi'i nodi'n flaenorol fel elfen graidd mewn ymateb sifil i argyfyngau, a lle buddsoddwyd amser ac ymdrech i feithrin y cysylltiadau hynny rhwng sefydliadau – y byddai modd defnyddio gwirfoddolwyr yn gyflymach. Profodd sefydliadau'r sector gwirfoddol i fod yn fwy sionc yn hynny o beth.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn lle da i ddatblygu'r seilwaith gorau er mwyn cofleidio a manteisio i'r eithaf ar fentrau gwirfoddoli sy'n diwallu anghenion gofal a llesiant mewn cymunedau lleol.

**Cwestiwn 8:** A ydych yn cytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau?

**Cwestiwn 8a** O fewn y cylch 5 mlynedd, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?

Mae cefnogaeth frwd i ddefnyddio mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau. Roedd 78% o'r ymatebwyr yn cytuno, gyda dim ond 6% yn anghytuno; dywedodd 16% nad oedden nhw'n gwybod oherwydd diffyg gwybodaeth.

Y teimlad oedd y dylai'r cwestiwn hwn fod yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau pellach, o ran cytuno ar ganlyniadau ystyrlon sy'n seiliedig ar fesurau meintiol ac ansoddol. Mae'n hanfodol eu bod yn canolbwyntio ar gydberthynas a phrofiad byw, gan edrych ar asedau yn ogystal ag angen, yn hytrach na Dangosyddion Perfformiad Allweddol meintiol a gorfodol.

O ran y cylch pum mlynedd, nododd yr ymatebwyr yr angen am gasglu data yn barhaus, gan y byddai hynny'n annog newidiadau prydlon i ddarparu gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys casglu gwybodaeth yn rheolaidd gan weithwyr rheng flaen a defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl sy'n gwasanaethu'r boblogaeth yn lleol yn hytrach na rhoi mwy o ddibyniaeth ar ddata meintiol nad yw'n rhoi darlun cyflawn. Byddai'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu sgiliau newydd a meithrin cysylltiadau gwell gyda'r cyhoedd, er mwyn cael y data angenrheidiol, yn enwedig ar gyfer y grwpiau mwyaf difreintiedig a'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae'n bosibl mai'r ffordd orau i gyflawni hyn fyddai i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol edrych ar anghenion o ran iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a thai, gan eu bod yn bwysig i ddarparu dull holistaidd. Yn y pen draw, os oes unrhyw lefel o effeithiolrwydd yn y cymorth sy'n cael ei ddarparu, yna bydd newidiadau o ran angen yn digwydd yn naturiol, felly mae'n hanfodol bod hwn yn cael ei fesur yn gywir mewn modd amserol, nid yn unig gan y byddai hyn yn helpu i ddatblygu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar gwell.

Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys y canlynol:



- Mae angen i'r cylch pum mlynedd fod yn fyrrach, gan fod gwasanaethau yn mynd ac yn dod, a dylen ni fod yn cofnodi anghenion neu gerrig milltir sydd heb eu cyrraedd yn ystod cylch pum mlynedd.
- Cafwyd cwestiynau ynghylch cael gwybodaeth mewn amser go iawn, a sut fyddai hynny'n gweddu â phenderfyniadau comisiynu sydd eisoes wedi'u gwneud, gan y byddai contractau eisoes wedi'u dyfarnu.

**Cwestiwn 9:** A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddatl dros newid?

**Cwestiwn 9a** beth ddylai'r rhain fod?

Roedd 82% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai angen newidiadau er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddatl dros newid. Nid oedd gweddill yr ymatebwyr yn gwybod sut i ateb y cwestiwn, ac roedd llawer ohonynt yn galw am ragor o wybodaeth a thrafodaeth. Er bod yr egwyddorion a ddefnyddiwyd wrth gynllunio'r cynigion yn cadw at ddeddfwriaeth a pholisïau cyfredol, a'r cyfan yn cael eu croesawu'n gyffredinol, mae bwlch yn parhau i fodoli rhwng prosesau cyrff strategol a phrofiadau byw pobl, ac mae'r bwlch hwnnw'n parhau i dyfu. Nid yw'r cynigion hyn yn arwain at newid i'r system 'o'r brig i lawr', ond yn hytrach yn ei chryfhau. Un o'r pethau sydd ar goll o'r cwestiynau ymgynghori oedd y gallu i atgyfnerthu'r ffordd mae'r system yn dosbarthu ac yn arfer pwerau. Mae angen newid ffocws y ddatl dros newid tuag at y gymuned yn gyntaf ac yna gweithio am i fyny. Cafwyd rhywfaint o gonsensws bod diffyg uchelgais yn y Papur Gwyn o ran ei weledigaeth a'i nodau, gan gyfeirio at bapur a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan New Local am 'rym cymunedol', lle dylid cynllunio'r sector gofal cymdeithasol i fod yn rhywbeth *'ansoddol, hirdymor, ar raddfa fach, sydd wedi'i ymgorffori yn y gymuned, sy'n gysylltiedig â chanlyniadau unigol, sy'n canolbwyntio ar wella, sy'n ailbennu cysylltiadau, sy'n defnyddio lluosogaeth nid cysondeb ac unffurfiaeth, sy'n seiliedig ar bobl, sy'n ymaddasu ac sy'n ataliol'*.

Mae gwaith i'w wneud o hyd ar ddatblygu system ddatblygu gwasanaethau iteraidd sy'n addasu'n barhaus, a fydd yn defnyddio model ansoddol, ataliol ac addasol sy'n canolbwyntio ar feithrin cysylltiadau ar lawr gwlad i newid gwasanaethau mewn ymateb i anghenion pobl. Mae newid strwythurol cenedlaethol o'r math hwn yn cymryd degawd i'w werthuso, ac erbyn hynny bydd wedi newid eto. Mae angen i'r canfyddiadau o'r gwerthusiad cyfredol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gael eu hystyried ochr yn ochr â'r ddatl dros newid a amlinellwyd yn y Papur.

Ychydig iawn o sôn sydd am y cymorth a'r gwerth ychwanegol y gall y sector gwirfoddol a chymunedol eu cynnig i wella'r gwaith o ddatblygu a darparu'r fframwaith a gwasanaethau gofal dilynol. Ac eto, mae ganddyn nhw'r strwythur i gynnig gwasanaethau cofleidiol sydd ar goll o wasanaethau statudol oherwydd strwythur gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft,

pan fydd Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn cael eu datblygu, mae'r paramedrau a'r amserlenni yn heriol, ac yn cael eu defnyddio fel esgus rhag cynnwys data'r sector gwirfoddol, sy'n golygu bod gwaith cynllunio'n digwydd ar sail darlun anghyflawn o'r angen ac o anghenion cudd neu sydd heb eu diwallu.

Nododd yr ymatebwyr broblemau eraill nad oedd y Papur Gwyn wedi cyfeirio atynt:

- Y broses sydd ei hangen i gefnogi plant yn llawn, yn enwedig plant anabl, i bontio i ddod yn oedolyn, a beth sydd ei angen gan ysgolion er mwyn datblygu cyfarfodydd pontio cynhwysfawr heb wahaniaethu ac ati, ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar.
- Ymgorffori offerynnau hawliau dynol wrth ffurfio'r cynigion newydd, yn benodol Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau Deallusol.
- Adolygu diwylliant ac ymddygiad cyfredol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sicrhau bod cydgynhyrchu yn ganolog i'r holl gynigion.
- Edrych ar y gwahaniaeth cyfredol rhwng graddfeydd cyflog ar gyfer rolau tebyg yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol, i gyfyngu ar rwystro pŵer a rhannu cyfrifoldebau.
- Datblygu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mwy cynrychiadol drwy gynnwys pobl ifanc a chyfathrebu â'r sector gwirfoddol yn gyffredinol, yn hytrach na chymryd yn ganiataol bod Cyngor Gwirfoddol Sirol neu gynrychiolydd o'r sector gwirfoddol cenedlaethol yn gyfystyr â chynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol.
- Creu cynlluniau cydweithredol o dan arweiniad cymunedau, mentrau cymdeithasol (modelau gwerth cymdeithasol amgen Adran 16) a fyddai'n adeiladu ar asedau lleol (sy'n wahanol ym mhob ardal) a chreu fframwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar defnyddiol.
- Mae'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a thai i fod wedi'u cydlynu gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fodd bynnag mae cwestiynau am y berthynas rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dal heb eu hateb.

**Cwestiwn 10:** Beth yn eich barn chi yw costau ac arbedion cost y cynigion i gyflwyno swyddfa genedlaethol a sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol?

**Cwestiwn 10a** A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion yr hoffech eu codi?

Unwaith eto, y teimlad oedd ei bod hi'n anodd ateb y cwestiwn hwn gan fod cymaint o ffactorau anhysbys, heb ddim gwybodaeth na ffigurau wedi'u rhyddhau ynghylch costau cyfredol, y dull arfaethedig o lywodraethu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol na'r rheoliadau y byddai'n rhaid cadw atynt.

Wedi dweud hynny, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n gostus, ac roedd llawer yn pryderu y byddai'r cynigion yn creu *'haenau biwrocrataidd sy'n sugno arian i ffwrdd o ddarparu gwasanaethau rheng flaen'*, gyda *'thimau mwy yn ddibynnol ar symiau arian y gellir eu gwario ar waith ataliol a darpariaeth gofal cymdeithasol yn y gymuned'*.

Mae newid strwythurol wedi digwydd o'r blaen, ac nid oes newid mawr wedi bod i brofiadau defnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig defnyddwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae hyn yn ymwneud â chanlyniadau, yn hytrach na chostau. Y teimlad oedd y gallai'r cynigion gostio miliynau o bunnoedd, ond nid yw hynny'n werth dim os yw'r canlyniadau yn aros yr un fath ag yr oedden nhw'n flaenorol. Byddai angen gwybodaeth er mwyn pennu a fyddai'r cynigion yn gwneud gwahaniaeth pendant i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl.

Er bod cytundeb eang bod cost yn gysylltiedig â chydgyhyrchu o'i wneud yn iawn, awgrymwyd y gellid gwneud arbedion sylweddol petai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu sefydlu fel endidau cydgyhyrchu gwirioneddol, oherwydd byddai gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl yn fwy tebygol o gael eu comisiynu.

Byddai cronfa briodol ar gyfer cydgyhyrchu yn cael ei chroesawu, gan fod hynny'n hanfodol i lwyddiant unrhyw gynigion newydd ac i lwyddiant Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Credir mai *'dim ond peth da'* fyddai cael yr un peth drwy Gymru, ond mai'r bobl sy'n derbyn gofal fyddai'n cael gwerthuso pa mor llwyddiannus oedd y system newydd.

**Cwestiwn 11:** Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Roedd ymatebwyr yn teimlo petai'r cynigion newydd yn canolbwyntio ar lefel leol ac unigol, ac mewn cymunedau, y byddai anghenion a gofynion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu'n naturiol.

Defnyddiodd ymatebwyr eraill y cwestiwn hwn i godi pryderon am ddiwallu anghenion cymunedau BAME, gan awgrymu bod cyllidebau ar gyfer y Gymraeg yn llawer uwch nag ieithoedd eraill, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae canran uwch o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.

*“Dw i'n gallu cyfri ar fysedd un llaw faint o weithiau dw i wedi gallu cael gofal iechyd Cymraeg, a dydy fy nhad erioed wedi cael gofal cymdeithasol yn ei iaith gyntaf. Nid gwadu anghenion grwpiau eraill yw bwriad hynny, ond ni ddylai fod ar draul siaradwyr Cymraeg (nac ar draul neb arall)”.*

**Ymatebwr i'r Ymgynghoriad**

Roedd grŵp bach o'r farn *‘Nid Cymraeg yw'r broblem, gan fod disgwyl i wasanaethau safonol sydd wedi'u comisiynu ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg yn barod, a bod cynnig rhagweithiol eisoes yn ei le’*.

Y teimlad oedd bod y problemau'n bodoli am nad yw staff Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n cael eu tynnu mewn gan gyrff cyhoeddus, yn cael eu dwyn i gyfri na'u herio am arferion gwael, ac y dylid cael mynediad teg i bawb, gan gynnwys ieithoedd cymunedol a iaith Arwyddion Prydain, er enghraifft. Roedd pobl yn teimlo ei bod hi'n annerbyniol eithrio pobl a bod angen *‘trawsnewid y system yn llwyr’* er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn rhan o'r gwaith o gynllunio gwasanaethau o'r dechrau. *‘Mynediad yw mynediad’* meddai rhai ymatebwyr, ac roedd llawer yn teimlo y dylai'r Llywodraeth wneud y fframwaith yn hygyrch ym mhob iaith, gan gyfeirio at ddyletswyddau cyfreithiol ym Mesur y Gymraeg a Deddf Cydraddoldeb 2010. Roedd eraill am atgoffa ymatebwyr bod problem wirioneddol yn bodoli ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, sy'n aml yn llawer mwy cyfforddus yn siarad yn eu mam iaith, ond bod y *‘cynnig rhagweithiol’* yn teimlo'n *‘ddidaro ar adegau, heb ddymuniad gwirioneddol i ymgysylltu a hyrwyddo'r iaith’*.

**Cwestiwn 12:** Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd cytundeb eang ymysg y cyfranogwyr os yw gwasanaethau yn cael eu gyrru gan anghenion y defnyddwyr, yna mae angen diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. (Gweler yr ateb blaenorol.)

## 4. CASGLIAD

Yn gryno, croesewir cynnwys y Papur Gwyn, yn enwedig yr angen am ddadansoddi a symleiddio'r farchnad gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae pryderon na fydd yr hyn sy'n cael ei gynnig, gan gynnwys gwneud Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn endidau cyfreithiol, yn arwain at wella gwasanaethau ac y dylai gael ei yrru o'r gymuned am i fyny:

- Pa wasanaethau gofal a chymorth hanfodol sydd eu hangen ar lefel leol ac a fyddai'n gallu cael eu darparu gan ystod o sefydliadau, partneriaethau ffurfiol neu drwy sefydliadau gwerth cymdeithasol Adran 16 i hyrwyddo ataliaeth ac ymyrraeth gynnar?
- Pa wasanaethau fyddai'n gallu cael eu darparu ar lefel ganolog pan fydd angen cymorth ychwanegol ar ddinesydd sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n gallu cael ei ddarparu'n lleol ac sy'n gallu cael ei gomisiynu'n rhanbarthol.
- Pa wasanaethau arbenigol sydd angen eu comisiynu yn rhanbarthol ac yn genedlaethol?

Yr hyn sy'n hanfodol i lwyddo yw osgoi'r farchnad brysur sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac mae cytundeb eang i gael gwared ar fonopoleiddio'r farchnad gofal cymdeithasol drwy greu fframwaith comisiynu gwerth cymdeithasol hyblyg ac ymarferol.

I gloi, y teimlad oedd bod angen:

- Dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd wedi methu er mwyn gwella darparu gwasanaethau a gwella ansawdd y gwasanaethau gofal a chymorth.
- Cydnabod bod cymunedau yn amrywiol a bod ganddynt nodweddion, cryfderau ac asedau unigol. Yn hynny o beth, mae angen i'r fframwaith cenedlaethol a'r gwaith safoni a chyffredinrwydd rhanbarthol roi ystyriaeth i hyn ac i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i anghenion lleol a chamau wedi'u harwain gan ddinasyddion, a gwybod sut mae hynny'n cyd-fynd â gwella iechyd a lles pobl.
- Ystyried datrysiadau cymunedol a phenderfynu lle byddai dull sy'n seiliedig ar gryfderau lleol yn gweddu, a chynnwys hynny mewn fframwaith.
- Sicrhau bod proses o atebolrwydd yn bodoli i ddal Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau ar draws sectorau i gyfrif am beidio â chydgyhyrchu gyda dinasyddion (defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr) wrth gynllunio gwasanaethau gofal a chymorth.
- Mapio'r cynigion yn erbyn egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Delio â'r pryderon cyfredol am y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a adroddwyd amdanynt yn flaenorol, a sicrhau bod rhain yn cael eu datrys cyn ceisio deddfwriaeth sylfaenol i roi statws endid cyfreithiol i'r Byrddau.

- Derbyn bod Cynlluniau Gofal a Chymorth yn lle da i ddechrau, ond mae angen eglurder o ran sut mae'r cynlluniau hynny'n sail i fframwaith cenedlaethol.
- Cydnabod bod mesur llwyddiant o safbwynt canlyniad (unigol) yn aml yn llawn heriau gan fod teclynnau gwahanol yn cael eu defnyddio. Er nad ydym am hyrwyddo agwedd o safoni:
  - Mae angen meithrin dull hyblyg sy'n ddibynnol ar faint a chwmpas sefydliadau, gan gynnwys gweithgarwch lleol/cymunedol, ac
  - angen i gytuno pa fesurau dilys y gellid ac y dylid eu defnyddio i gymharu a chyferbynnu rhwng gwasanaethau gofal a chymorth.
- Derbyn bod pris wedi bod yn ffactor trechol arweiniol ar draul comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, ac ar draul y gallu i ddarparu'r hyn sydd o bwys i bobl, ac wedi'i gwneud hi'n anodd i dyfu a buddsoddi mewn sefydliadau Adran 16 sy'n cynnig modelau amgen o ddarparu gwasanaethau. Er y byddai pennu methodoleg ffi yn ddefnyddiol, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y bydd mwy o fuddsoddiad mewn modelau darparu amgen, ac mae'n bosibl y byddai angen adnoddau ychwanegol penodol ar yr elfen hon o'r gwaith.

Yn olaf, roedd cytundeb bod angen bod yn herfeiddiol er mwyn sicrhau gwelliannau yn y gwasanaeth, a bod gan y sector gwirfoddol sgiliau, arbenigedd a chryfderau allweddol i gyfrannu at newid yr agenda. Mae cydberchnogaeth yn hanfodol er mwyn datblygu bwriadau'r Papur Gwyn, ac mae hynny'n golygu sicrhau bod cydgynhyrchu wrth wraidd yr hyn fydd yn digwydd nesaf.

Mae CGGC yn hapus i drafod y sylwadau hyn ymhellach gyda Gweinidogion neu swyddogion ar gais.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Sally Rees (CGGC) [srees@wcva.cymru](mailto:srees@wcva.cymru)

*Sally Rees*

*Cydlynnydd Cenedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Trydydd Sector, CGGC*

*Ebrill 2021*

## ATODIADAU

### Atodiad 1.

#### CANLYNIADAU'R PÔL PINIWN

Mae'r canlyniadau hyn yn gyfuniad o'r ddwy sesiwn ymgynghori ar-lein.

	Cyfanswm yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (cyfuniad o'r ddwy sesiwn)	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Cwestiwn 1	44	91%	7%	2%
Cwestiwn 2	43	74%	5%	21%
Cwestiwn 5a	35	3%	60%	37%
Cwestiwn 6	33	18%	9%	73%
Cwestiwn 7	36	22%	42%	36%
Cwestiwn 8	32	78%	6%	16%
Cwestiwn 9	34	82%	0%	18%



**RHESTR GOFRESTRU** (ni ddaeth pob un i'r digwyddiadau, ond derbyniodd pob un gopi o'r ymateb drafft i roi sylwadau)

<b>Enw Cyntaf</b>	<b>Cyfenw</b>	<b>Sefydliad</b>
Donna	Coyle	Canolfan Cydweithredol Cymru
Sujatha	Thaladi	The Mentor Ring
Rhian	Stangroom-Teel	Leonard Cheshire
Jackie	Dorrian	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Anne	Newman	
Babs	Lewis	Nesta
Helen	Sinclair	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Hazel	Lloyd Lubran	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Stephen	Tiley	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
John	Gallanders	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Helen	Smith	Ambiwlans Sant Ioan Cymru
Eileen	Munson	Prifysgol De Cymru
Anne	Morris	Interlink RhCT
Stewart	Blythe	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bernadette	Hurley	Cwmni Buddiannau Cymunedol Moss-Rose Cottage
Andrew	Cuthbert	Prifysgol Caerdydd
Beth	Evans	Gofalwyr Cymru
Gethin	Rhys	CYTŪN Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Emma	Burke	Leonard Cheshire
Jake	Smith	Gofalwyr Cymru
Miranda	Thomason	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Samantha	Nicholls	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Maria	Cheshire-Allen	Prifysgol Abertawe
Helen	Allen	SHINE
Melanie	Hayes	Elusen Shine
Adrian	Bailey	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Adele	Rose-Morgan	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Luke	Venn	Spry Care
Susanne	Maddax	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Tom	Penney	Social Kemistri Ltd.
Steph	Shobiye	Autistic UK
Fiona	Liddell	CGGC
Ann	Camps	Cymorth Canser Macmillan
Linda	Newton	Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro
Amanda	Carr	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Bethan	Shoemark-Spear	Age Connects Morgannwg
Karen	Berrell	Joining The Dots
Ann	Westmoreland	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Kate	McCormack	Canolfan Cydweithredol Cymru
Lowri	Griffiths	Marie Curie
Pat	Powell	Cynghair Gwirfoddol Torfaen

Amber	Demetrius	Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Mark	Llewellyn	Prifysgol De Cymru
Faye	Patton	Gofal a Thrwsio Cymru
Sue	Phelps	Cymdeithas Alzheimer Cymru
Bill	Upham	Growing Space
Alex	Bowen	Breathe Creative
Sue	Leonard	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Paula	Lunnon	Canolfan Cydweithredol Cymru
Angie	Darlington	Gweithredu Gorllewin Cymru Dros Iechyd Meddwl
Sandra	Anderson	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Johanna	Davies	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Clair	Swales	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Grace	Krause	Anabledd Dysgu Cymru
Catrin	Fletcher	Hafod
Sarah	Lowther	British Liver Trust
Owen	Williams	Cyngor Cymru i'r Deillion
Noreen	Blanluet	Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
Cari	Jones	Cwmni Buddiannau Cymunedol Fresh Insight Today
Ellis	Owen	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Lee	Ellery	
Lorraine	Morgan	
Lisa	King	Coleg Afan
Simon	James	Interlink RhCT
Rachel	Williams	Parkinson's UK Cymru
Mark	Llewellyn	Ymddiriedolwr, CGGC
Sally	Rees	CGGC

Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Triniaeth Deg i Fenywod Cymru

Hyrwyddwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cyngorau Gwirfoddol Sirol)

Grŵp Cyfeirio Partneriaethau Cymunedol Dyfeisgar